

Children and Young People Committee

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

I ymgynghoreion ar y rhestr amgaeedig

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Mai 2009

Annwyl Gyfaill

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Mae Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth ar gyfer ei ymchwiliad manwl i leoli plant mewn gofal yng Nghymru.

Drwy archwilio effeithiolrwydd systemau ar gyfer lleoli plant a phobl ifanc mewn gofal yn benodol, sylweddolwn na fydd modd i ni roi ystyriaeth fanwl i faterion ehangach sy'n effeithio ar ofal plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Os yw ymgynghoreion fodd bynnag yn dwyn sylw at faterion sydd y tu hwnt i'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad penodol hwn, mae'n bosibl y byddwn naill ai'n eu hystyried yn fyr, neu'n eu dwyn i sylw pwyllgor arall Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Er enghraifft gall y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol, ystyried adroddiad ein hymchwiliad mewn ymchwiliad dilynol ar y materion ehangach sy'n effeithio ar ofal plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Cefndir

Ar 31 Mawrth 2008, roedd 4,807 o blant yng Nghymru yn derbyn gofal, ac roedd 75 y cant ohonynt mewn lleoliadau gofal maeth.

Y categori mwyaf o safbwynt angen gan blant sy'n dechrau derbyn gofal yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2008 oedd "camdriniaeth neu esgeulustod" oedd yn 52 y cant o'r cyfanswm. O'r cyfanswm o 4,633 o blant sy'n derbyn gofal, cafodd 11 y cant dri neu fwy o leoliadau yn ystod y flwyddyn ariannol 2007-08.

Ffon / Tel: 029 2089 8476

Ffacs / Fax: 6090

Minicom: 029 2082 3280

E-bost / E-mail: Helen-mary.jones@wales.gov.uk

Rydym yn cydnabod bod lleoli plant a phobl ifanc gyda gofalwyr maeth yn broses gymhleth. Mae llawer o blant a phobl ifanc a leolir gyda gofalwyr maeth yn fregus, a chanddynt anghenion sylweddol a all fod yn her i unrhyw un sy'n gofalu amdanynt. Bydd paru plentyn neu berson ifanc â gofalwr maeth addas yn gofyn am ymwybyddiaeth o anghenion y person ifanc, ac yn gofyn am sicrhau bod gofalwr profiadol sydd wedi'i hyfforddi'n briodol ar gael. Bydd yr ymchwiliad hwn yn edrych ar effeithiolrwydd systemau yng Nghymru ar gyfer lleoli plant a phobl ifanc gyda gofalwyr maeth.

Cylch gorchwyl

Y cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad yw ymchwilio i effeithiolrwydd systemau yng Nghymru ar gyfer lleoli plant a phobl ifanc mewn gofal, yn cynnwys:

- Y broses cynllunio, dynodi ac adolygu lleoliadau maethu unigol ac atebolrwydd am reoli lleoliadau a lles plant sy'n derbyn gofal.
- Gweithrediad y system gomisiynu ar gyfer lleoli plant ag asiantaethau maethu a'i heffaith ar y dewis o leoliadau ac ar rannu gwybodaeth ynghylch plant sy'n derbyn gofal.
- Cynnwys plant a phobl ifanc mewn penderfyniadau am eu lleoliadau.
- Effeithiolrwydd yr Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant a'r systemau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau.
- Darparu gwybodaeth amserol a pherthnasol i ofalwyr maeth ac asiantaethau maethu ar gefndir a hanes y plentyn neu'r person ifanc sy'n cael ei leoli a'r rhesymau am y lleoliad.
- Rhannu gwybodaeth sy'n bersonol, yn gyfrinachol neu wybodaeth nas profwyd am blant sy'n derbyn gofal.
- Lleoli plant sy'n anabl, rhai o deuluoedd pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig a phlant ceiswyr lloches heb gwmni
- Effeithiolrwydd polisiâu a chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar leoli plant sy'n derbyn gofal â gofalwyr maeth.

Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad

Gwahoddir pawb sydd â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i glerc y pwyllgor yn y cyfeiriad uchod, i gyrraedd erbyn dydd Gwener, 11 Medi 2009 fan bellaf.

Os yw'n bosibl, anfonwch gopi electronig ar ffurf MS Word neu fformat Rich Text naill ai drwy e-bost at PwyllgorPlantaPhobllfanc@wales.gsi.gov.uk neu ar ddisg.

Dylech gychwyn eich cyflwyniad drwy ddarparu rhywfaint o wybodaeth amdanoch eich hun, neu'ch sefydliad, cyn amlinellu eich safbwyntiau a'ch profiadau mewn cysylltiad â rhai o'r meysydd canlynol, neu'r cyfan ohonynt.

Beth yr hoffem ei gael gennych chi – cwestiynau'r ymgynghoriad

Casglu gwybodaeth am blentyn

1. Wrth benderfynu a fydd plentyn yn cael ei leoli mewn gofal a ble i'w leoli, bydd angen i weithiwr cymdeithasol gael darlun cywir o anghenion ac amgylchiadau plentyn, a fydd yn gofyn fod gan y gweithiwr wybodaeth am ystod o wasanaethau lleol, gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac ati a bydd hefyd yn gorfod ystyried ei gyfrifoldebau o ran cyfrinachedd. I ba raddau y mae gwybodaeth am anghenion plentyn yn cael ei rhannu'n effeithiol gyda rhai sy'n gwneud penderfyniadau, ac a oes gennych unrhyw enghreifftiau o arfer da o ran cyfathrebu rhyngasiantaethol o'r fath? A oes dealltwriaeth glir ynglŷn â phwy sy'n gyfrifol am benderfyniadau am ofal plentyn yn y pen draw?

Defnyddio'r wybodaeth honno

2. I ba raddau y mae Bas Data Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant yn rhoi digon o wybodaeth am leoliadau plant, ac i ba raddau y mae'r bas data yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd? Sut y gallai'r bas data gael ei ddefnyddio'n well?
3. Bydd angen gwybodaeth am anghenion ac amgylchiadau plentyn ar asiantaethau maethu a gofalwyr maeth er mwyn cynnal asesiadau risg yn briodol, darparu ar gyfer anghenion plentyn at ati. A oes gwybodaeth briodol ar gael yn arferol i asiantaethau maethu a gofalwyr maeth, ac ym mha fodd y gellid gwella dulliau cyfathrebu o'r fath? A yw'r system comisiynu yn galluogi neu'n rhwystro darparu gwybodaeth i ddarparu asiantaethau maethu a gofalwyr maeth, ac a oes gennych unrhyw esiamplau o arferion da o ran darparu gwybodaeth i asiantaethau maethu a /neu ofalwyr maeth?
4. A gaiff lleoliadau eu cynllunio? A oes eglurder a fydd lleoliadau am gyfnodau byr o amser, a fyddant yn arwain at fabwysiadu yn y pen draw, ac ati? A oes modd i chi ddarparu unrhyw enghreifftiau o arferion da yn y dasg o gynllunio lleoliadau maethu?
5. A yw risgiau lleoliadau maethu yn cael eu hegluro wrth ofalwyr maeth?
6. A yw plant a phobl ifanc yn cymryd rhan yn y broses lleoliadau iddynt eu hunain?

Yn dilyn lleoliad

7. A ydych yn ystyried y dylai gweithiwr cymdeithasol plentyn aros yn gysylltiedig â'i ofal, pan fydd y plentyn mewn lleoliad maethu? Er enghraifft, pwy sy'n gyfrifol am gyd-gysylltu ag ysgolion yn y lle cyntaf? A roddir digon o hyblygrwydd ac ymreolaeth i ofalwyr maeth ofalu am eu plant, heb rwystr biwrocraidaidd?
8. I ba raddau y mae lleoliadau plant mewn gofal yn cael eu hadolygu'n ansoddol? A oes modd i chi ddarparu unrhyw enghreifftiau o leoliadau lle mae dadansoddiad cost a budd arnynt er enghraifft?

Cyffredinol

9. A oes unrhyw sylwadau pellach yr hoffech eu cynnig am leoli plant mewn gofal? A oes unrhyw argymhellion penodol y byddech yn awgrymu bod y Pwyllgor yn eu gwneud i Lywodraeth y Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor wedi gwahodd cyflwyniadau gan y rhai a nodir ar y rhestr ddsbarthu amgaeedig (Atodiad 1). Fodd bynnag, **byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr ymlaen at unrhyw unigolion neu sefydliadau nad ydynt ar y rhestr ond a hoffai gyfrannu at yr adolygiad o bosibl.** Gosodwyd copi o'r llythyr hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol gyda gwahoddiad agored i gyflwyno safbwyntiau.

Datgelu gwybodaeth

Dylai tystion fod yn ymwybodol, pan fo tystiolaeth ysgrifenedig wedi'i chyflwyno i bwyllgor y caiff ei thrin fel eiddo'r pwyllgor. Mae'n fwriad gan y Cynulliad i gyhoeddi papurau ysgrifenedig ar ei wefan, a gallant gael eu hargraffu gyda'r adroddiad. Ni fydd y Cynulliad Cenedlaethol yn cyhoeddi gwybodaeth a ystyrir yn ddata personol.

Os ceir cais am wybodaeth a gyflwynwyd o dan ddeddfwriaeth y DU, efallai y bydd angen datgelu'r wybodaeth a ddarperir gennych. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a ddilëwyd cyn hynny gan y Cynulliad Cenedlaethol at ddibenion cyhoeddi.

Os byddwch yn darparu unrhyw wybodaeth, ac eithrio data personol, nad yw'n addas i'w datgelu i'r cyhoedd yn eich barn chi, eich cyfrifoldeb chi yw nodi pa rannau na ddylid eu cyhoeddi a rhoi dadl resymol dros hyn. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried hyn wrth gyhoeddi gwybodaeth neu wrth ymateb i geisiadau am wybodaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor a'i ymchwiliad i'w gael yn:

Yn gywir



Helen Mary Jones
Cadeirydd, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Atodiad 1

Mynediad ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Dduon a Phlant a Phobl Ifanc o
Leiafrifoedd Ethnig sydd ag Anableddau
Gweithredu dros Blant

Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan
Fforwm Cymru Gyfan ar gyfer Rhieni a Gofalwyr
Rhwydwaith Gwrth-dlodi Cymru
Swyddog Cyswllt Cynorthwyol yr Heddlu
Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru
Cymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol
Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr Cymru
Awtistiaeth Cymru
BAAF (Cymdeithas Fabwysiadu a Maethu Prydain)
Cymdeithas Lles Bangladeshaid
Grŵp Merched Bangladeshaid
Barnardos Cymru
Sefydliad Bevan
Black Association of Women Stepping Out
Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon
Rhwydwaith Sector Gwirfoddol Pobl Dduon Cymru
Cyngor Sir Blaenau Gwent
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont
Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg NHS
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
Cyngor Dinas Caerdydd
Cardiff Humanists
Prifysgol Caerdydd (Deon Cynorthwyol, Dr. Heather Payne)
Cyngor Gofal Cymru
Cynhalwyr Cymru
Cyngor Sir Gaerfyrddin
Ymddiriedolaeth GIG Gaerfyrddin
Centre on budget and policy priorities
Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru
Cyngor Sir Ceredigion
Plant yng Nghymru
Adnodd Cymorth Comisiynu ar gyfer Plant
Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Comisiynydd Plant Cymru
Yr Eglwys yng Nghymru
Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol

Cymru Yfory
Cytun – Eglwysi Ynghyd yng Nghymru
Cyngor Sir Ddinbych
Anabledd Cymru
Awdurdod Heddlu Dyfed Powys
Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol
Cynghair Efengylaidd Cymru
Cyngor Sir y Fflint
Swyddogion Cyswllt Gofal Maeth
Cydweithrediaeth Gofal Maethu
Y Rhwydwaith Maethu
Fostering Solutions
Y Ddraig Ffyndi
Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent
Awdurdod Heddlu Gwent
Cyngor Sir Gwynedd
Home-Start
Cyngor Ymchwil y Gwyddorau Dynol
Cymdeithas Ddyneiddiol Canolbarth Cymru
Gwasanaethau Gofal Maeth Annibynnol
Grŵp Ilywio Asiantaethau Maethu Annibynnol
Y Sefydliad Materion Cymreig
Cyngor Sir Ynys Môn
Sefydliad Joseph Rowntree
MENCAP Cymru
Iechyd Meddwl Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
MEWN Cymru
Cyngor Sir Fynwy
Undeb y Mamau yng Nghymru
Cyngor Mwslimiaid Cymru
Cymdeithas Genedlaethol yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau
Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth Cymru
Cyngor Cenedlaethol y YMCA yng Nghymru
Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru
Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuencid Cenedlaethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot
Cyngor Dinas Casnewydd
Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg
Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru
NSPCC Cymru
Cymdeithas Pakistan o Gyngor Asiaidd Casnewydd a Gwent, Cymru
Pathway Care
Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen
Cyngor Sir Benfro
Chwarae Cymru
Prifysgol Plymouth

Cymdeithas Gydfuddiannol y Pwyliaid yng Nghymru
Ymddiriedolaeth GIG Pontypridd Rhondda
Cyngor Sir Powys
Llais Ffoaduriaid Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
RNIB Cymru
RNID Cymru
Archesgobaeth Gatholig Caerdydd f
Byddin yr Iachawdwriaeth
Achub y Plant Cymru
SCOPE Cymru
Shelter Cymru
SNAP Cymru
Cyngor Cydraddoldeb Hiliol De Ddwyrain Cymru
Awdurdod Heddlu De Cymru
Stonewall Cymru
Gwasanaethau Cymorth Maethu
Cyngor Sir Abertawe
Ymddiriedolaeth GIG Abertawe
TACT
Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Tavistock a Portman (Paula Conway)
Cymdeithas y Plant
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar
Ymddiriedolaeth y Tywysog – Cymru
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Tros Gynnal
Cyngor Pobl Anabl y DU
UNICEF y DU
UNISON Cymru
UNITE
Prifysgol Morgannwg (Yr Athro Howard Wilkinson)
Cyngor Sir Bro Morgannwg
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Voices from Care (Cymru)
Swyddfa Archwilio Cymru
Cynghrair Cynhalwyr Cymru
Cyngor Cymru i Bobl Ddall
Cyngor Cymru i Bobl Fyddar
TUC Cymru
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru
Cymdeithas y Seicotherapyddion Plant yng Nghymru
Cyngor Defnyddwyr Cymru
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cydffederasiwn GIG Cymru
Grŵp Dyneiddiol Gorllewin Morgannwg
Prosiect Merched yn Gwneud Gwahaniaeth

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Cyngor Cymreig y YMCA
Cyngor Sir Ynys Môn
Youth Cymru
Cyswllt Ieuenctid Cymru
YWCA